Cyngor Ar Bopeth Cymru
Citizens Advice Cymru

**Wales Cardiff Office**
Quebec House, Castlebridge
5-19 Cowbridge Road East
Cardiff CF11 9AB

**Swyddfa Cymru Caerdydd**
Tŷ Quebec, Pont-y-Castell
5-19 Heol Ddwyrain Y Bontfaen
Caerdydd CF11 9AB

Ffôn /Tel: 03000 231 011
Ffacs/Fax: 03000 231 060
www.citizensadvice.org.uk

Annwyl Alun Ffred Jones AC

Ysgrifennaf yn dilyn sesiwn dystiolaeth ymchwiliad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd i gynlluniau tlodi tanwydd yng Nghymru. Roeddwn i â'm cydweithiwr William Baker yn ddiolchgar am y cyfle i gyflwyno tystiolaeth, yn enwedig o gofio rôl statudol Cyngor ar Bopeth yn cynrychioli defnyddwyr ynni.

Yn yr ymchwiliad, nodais fy mhryderon ynglŷn ag ymchwiliad yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA) i'r farchnad ynni, a sut bydd yn gweithio yng Nghymru.

Ymatebodd Cyngor ar Bopeth i ymgynghoriad Ofgem ar yr atgyfeiriad, gan wneud y pwynt y dylid nodi'n gwbl bendant yr angen i ystyried materion datganoledig yng nghylch gorchwyl yr ymchwiliad. Gan na chynhwyswyd y cyfryw gyfeiriad, credaf ei bod yn bwysig bod ymchwiliad y CMA yn llwyr ystyried y problemau y mae defnyddwyr ynni'n eu hwynebu yng Nghymru.

Mae Cyngor ar Bopeth Cymru yn awyddus i'r CMA gadw mewn cof bob un o'r effeithiau canlynol ar y ffordd y mae'r farchnad ynni yn gweithredu yng Nghymru;

- Polisi datganoledig cyfredol
- Cyfrifoldebau datganoledig posibl y dyfodol
- Ffurf wahanol y farchnad gyflenwi yng Nghymru
- Daearyddiaeth a demograffeg unigryw Cymru

Rwy'n amgáu nodyn briffio cryno sy'n ymhelaethu ar y pwyntiau hyn. Rwy'n siŵr y byddech yn cytuno y bydd hi'n bwysig sicrhau bod unrhyw ddiwygiadau sy'n deillio o'r ymchwiliad yn osgoi canlyniadau anfwriadol i ddefnyddwyr yng Nghymru.

Byddwn yn ddiolchgar pe byddech, fel Cadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, yn ystyried codi'r mater hwn gyda'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol, Diwylliant a Chwaraeon gan ofyn iddo gyflwyno'r materion i'r CMA ar ran Llywodraeth Cymru.

**Noddwr EHB Y Dywysoges Frenhinol** **Prif Weithredwr Gillian Guy**
**Patron HRH The Princess Royal** **Chief Executive Gillian Guy**

Cyngor Ar Bopeth Cymru/Citizens Advice Cymru yn enw gweithredol ar Gymdeithas Genediathol Cyngor Ar Bopeth
Cyngor Ar Bopeth/Citizens Advice is an operating name of The National Association of Citizens Advice Bureaux
Swyddfa gofrestredig/Registered office 3rd Floor North, 200 Aldersgate Street, London EC1A 4HD
Rhif elusen Gofrestredig 279057 Rhif TAW 726 0202 76 Cwmni Cyfyngedig Trwy Warant Rhif 1436945 Lloegr
VAT number 726 0202 76 Company limited by guarantee Registered number 1436945 England Charity registration number 279057

Hoffwn awgrymu hefyd y gallech o bosibl gyflwyno’r materion eich hun yn uniongyrchol i’r Awdurdod, ac ystyried dwyn sylw’ch cydweithwyr yn San Steffan at y materion hefyd. Credaf y gall fod gan Swyddfa Cymru rôl eiriolaeth yn hyn o beth o ran sicrhau bod y CMA yn cymryd datganoli o ddifrif, a byddwn yn gwerthfawrogi unrhyw gynrychiolaeth bellach y gallech ei gwneud i’r perwyl hwn.

Byddwn yn barod iawn i gwrdd â chi neu â’ch cydweithwyr i drafod hyn yn fanylach pe bai hynny o gymorth.

Yn gywir,

Andrew Regan

Rheolwr Polisi Ynni, Cymru, Cyngor ar Bopeth Cymru